Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf

24/07/2026

09:00 – 13:00

Lleoliad: Depo Ffynnon Taf

Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

Hefyd yn bresennol

Sam Hadley, Lorenzo Visentin, Stephen Morgan (Cofnodion)

1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

1c. Datgan Buddiant

1.d Cofnodion Blaenorol

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod blaenorol, yn amodol ar y gwelliannau.

2. Sylw i ddiogelwch

Myfyriodd y Bwrdd ar effeithiau'r gwres eithafol diweddar ar weithrediadau, cwsmeriaid a chydweithwyr, gan nodi bod tarfiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn dod yn rhywbeth mwy a mwy cyffredin. Trafododd yr aelodau'r angen am strategaeth gwydnwch hinsawdd fwy strwythuredig, gan gynnwys addasiadau i'r fflyd, cynlluniau wrth gefn, addasu seilwaith a ffocws cyflym ar fesurau lliniaru ymarferol i leihau risgiau gweithredol a diogelwch yn y dyfodol.

3. Sylw i gwsmeriaid

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad yn egluro'r cynlluniau ar gyfer gwasanaethau arlwyo a phrofiad cwsmeriaid. Nododd yr aelodau fod adborth cwsmeriaid yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan er gwaethaf heriau gweithredol, gan nodi bod disgwyliadau cwsmeriaid o ran argaeledd, cysondeb a hwylustod gwasanaethau yn parhau i gynyddu. [redacted] Croesawodd yr aelodau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i wella amserlenni, datblygu fframwaith cymhwysedd, cryfhau ymgysylltiad arweinwyr a chyflwyno safonau gwasanaeth cliriach.

4. Diweddariad ar Bobl

Trafododd y Bwrdd y broses o reoli absenoldebau, gan nodi bod absenoldeb yn parhau i fod yn uwch na'r targed ac yn cael ei yrru'n bennaf gan gyflyrau iechyd meddwl, cyhyrysgerbydol a gastroberfeddo [redacted]

[redacted]

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Ystyriodd y Bwrdd y gwersi a ddysgwyd o'r tywydd poeth diweddar, gan nodi bod yr effeithiau ar gwsmeriaid a chydweithwyr wedi bod yn arbennig o ddifrifol ar lwybrau sy'n cael eu defnyddio gan fflydoedd hŷn. Er bod dewisiadau o ran gwasanaethau wedi cael eu gwneud gyda diogelwch yn flaenoriaeth, roedd yr aelodau'n cydnabod y dylai cynlluniau wrth gefn yn y dyfodol geisio dosbarthu effeithiau gweithredol yn fwy cyfartal ar draws y rhwydwaith ac osgoi effeithiau anghymesur ar lwybrau neu gymunedau unigol. Croesawodd y Bwrdd y modd yr oedd yr arweinwyr yn amlwg ac yn bresennol yn ystod y cyfnod o darfu, y penderfyniad a wnaed i flaenoriaethu presenoldeb gweithredol dros weithgareddau busnes arferol, a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan gydweithwyr ynghylch y gefnogaeth gan reolwyr. Trafododd yr aelodau'r angen am amserlen ffurfiol wrth gefn y gellid ei chyflwyno'n gyflym yn ystod tywydd eithafol, wedi'i hategu gan ragdybiaethau masnachol, gweithredol a chwsmeriaid y cytunwyd arnynt.

[redacted]

5.1 Perfformiad Rheilffyrdd yng Nghyfnodau 2 a 3

[redacted] bod tueddiadau perfformiad sylfaenol yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan, pwysleisiodd yr aelodau'r angen i wella gwydnwch, cryfhau atebolrwydd cyflenwyr a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch gwasanaethau yn y dyfodol yn ystyried yr effaith ar gwsmeriaid, gweithrediadau a chyllid. [redacted]

6. **Diweddariadau Network Rail**

Trafododd y Bwrdd berfformiad signalau yn dilyn buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith. Nodwyd, er bod nifer y digwyddiadau wedi lleihau, y gallai methiannau seilwaith barhau i gael effaith sylweddol ar wasanaethau. Roedd yr aelodau o blaid y rhaglenni i wella dibynadwyedd a gwneud gwaith adnewyddu penodol i fynd i'r afael â gwendidau hysbys.

7. Diogelwch

Trafododd y Bwrdd berfformiad diogelwch, gan gynnwys SPAD, TPWS, risg croesfannau rheilffordd a digwyddiadau gweithredol diweddar. [redacted]

[redacted] Croesawodd yr aelodau'r gwaith parhaus o ymgysylltu â gyrwyr, y camau penodol i fynd i'r afael â risgiau, a'r sesiynau briffio yn seiliedig ar risgiau, ond gofynnwyd am adroddiadau mwy cadarn i roi sicrwydd a thystiolaeth gliriach bod y risgiau'n cael eu lliniaru. **Cam gweithredu LV: Adolygu cyfleoedd i gyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol ar unwaith mewn lleoliadau sy'n cyflwyno risgiau tebyg i'r rhai yn Llangadog, hyd nes y bydd yr ymchwiliad llawn wedi'i gwblhau.**

8. Diweddariad Cyllid

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad cyllid [redacted]

9. Diweddariad Masnachol

Nododd y Bwrdd fod perfformiad refeniw cyffredinol yn parhau i ragori ar feincnodau ehangach y diwydiant, er gwaethaf y tarfu diweddar ar wasanaethau. Cofnodwyd twf sylweddol yng ngogledd Cymru a chanolbarth a gorllewin Cymru, gan adlewyrchu manteision y newidiadau diweddar i amserlenni a'r cynnydd yn y galw gan deithwyr. Trafododd yr aelodau berfformiad gwannach ar lwybr y Gororau ac adolygu ymyriadau sydd wrthi'n cael eu datblygu i wella cynnyrch, galw a pherfformiad masnachol cyffredinol. Trafododd y Bwrdd ddiwygiadau i'r diwydiant, trefniadau ar gyfer dyrannu refeniw yn y dyfodol, datblygiadau manwerthu digidol, a'r angen i sicrhau bod TrC yn parhau i fod mewn sefyllfa dda o fewn strwythurau'r diwydiant yn y dyfodol. **Cam gweithredu: Asesu'r effaith ar refeniw a chwsmeriaid sy'n gysylltiedig â gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli tarfiadau ac amserlenni wrth gefn.**

10.1 Diweddariad ar Refeniw Traws Cymru

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar Refeniw Traws Cymru.

11. Diweddariad ar Farchnata

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar berfformiad marchnata a nododd fod gweithgarwch ymgyrchu'n parhau i gyflawni refeniw a chanlyniadau cadarnhaol. Trafododd yr aelodau welliannau i'r dulliau priodoli, enillion cryf ar fuddsoddiad, a gwelliannau cadarnhaol yn y metrigau sy'n mesur ystyriaethau cwsmeriaid a'u bwriad i brynu tocynnau. Trafododd y Bwrdd gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o bartneriaethau, dylanwadwyr, marchnata cyrchfannau a gwybodaeth am ymddygiad cwsmeriaid i gefnogi twf yn nifer y teithwyr. Anogodd yr aelodau y dylid parhau i archwilio dulliau marchnata arloesol, gan gynnal ffocws clir ar gynhyrchu refeniw a chanlyniadau masnachol y gellir eu mesur.

12. Unrhyw Fater Arall

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.